Llwybr y Gymraeg – BA1A 2022-23

Darlith 2: 17.11.22
Rhannau Ymadrodd

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

n.evans@pcydds.ac.uk

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGORIAITH

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Heddiw, byddwn ni'n …

- dysgu am hanes yr iaith Gymraeg.
- dysgu am rannau ymadrodd a pham eu bod yn bwysig.



Darlithoedd Llwybr y Gymraeg
BA1 – 2022-23

Dyma'r dyddiadau:

Bydd **pob darlith** ar y campws

10/11/22 (11-1)
17/11/22 (11 -1)
24/11/22 (11-1)
1/12/22 (11 -1)

12/1/23 (11-1)
19/1/23 (11-1)
26/1/23 (11-1)
2/2/23 (11-1)
16/2/23 (11-1)
2/3/23 (11-1)
16/3/23 (11-1)
23/3/23 (11-1)





Ffilm – Hanes y Gymraeg

Ffilm 1: Cysgodion Ddoe

https://www.youtube.com/watch?v=xfD0SRJ8MUc

Diolch i Golegau Cymru a Llywodraeth Cymru

PWYNTIAU TRAFOD:

Pam oedd gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod yr 20fed ganrif?

· Beth yw effeithiau hir dymor y deddfau uno a brad y llyfrau gleision.

Ffilm – Ein hiaith

Ein Hiaith: Ffilm 2

https://www.youtube.com/watch?v=LOFDdndeQXU

Diolch i Golegau Cymru a Llywodraeth Cymru

· Beth oedd y trobwynt a welwyd yn ystod yr 20fed ganrif?

· Oeddech chi'n ymwybodol o hanes sefydlu S4C? Oeddech chi'n gwybod am fygythiad Gwynfor Evans?

· Pa mor bwysig oedd sefydlu S4C yn eich barn chi?

Eich llais …

magu hyder

Dechrau bob sgwrs yn y Gymraeg

treiglo

ei neu **eu**?

ymateb yn gywir i'r disgyblion

sillafu

Beth yw ‘rhannau ymadrodd’?

- Termau gramadegol sy’n ein helpu ni i wybod sut mae geiriau’n ymddwyn e.e. sut a pham maent yn treiglo, beth yw eu lleoliad mewn brawddeg a.y.y.b.

- Enghreifftiau: enw, berf



Ymarfer sydyn

- Sawl rhan ymadrodd y gallwch chi feddwl amdanyn nhw? e.e. berf, enw…
- Ysgrifennwch nhw ar eich bwrdd gwyn bach.



Rhan 1:
Enw / Enwau (noun/s)

Gair sy'n cael ei roi ar rywbeth er mwyn ei adnabod a gwybod **beth** ydyw.

Enw / Enwau *(Noun/s)*

Mae gan bob enw ffurf **unigol** a **lluosog**

e.e. problem / problemau; plentyn / plant

Mae i bob enw yn y Gymraeg **genedl** h.y. mae pob enw naill ai yn **wrywaidd(eg)** neu'n **fenywaidd (eb)**

e.e. y ddesg **hon**, y gwaith **hwn**.

Serch hynny, ceir rhai enghreifftiau sy'n gallu bod yn fenywaidd neu'n wrywaidd **(egb)**

e.e. munud, llygad, cwpan.

Enw / Enwau cyffredin

Sut i adnabod **enw benywaidd** cyffredin?

1. Rhoi'r fannod (y) o flaen yr enw, e.e. y **f**erch, y **w**lad


Mae enw benywaidd unigol yn treiglo'n feddal ar ôl y fannod.


2. Rhoi **hwn** neu **hon** ar ôl yr enw, e.e. y ferch **hon**, y bachgen **hwn**


3. Defnyddio geiriadur.


Geiriaduron defnyddiol i'r dosbarth ac i chi …

















Geiriaduron defnyddiol i'r dosbarth cynradd…





















Defnyddio geiriadur yn y dosbarth






Defnyddio geiriadur yn y dosbarth



cadair *hon enw* (**cadeiriau**) sedd i un person CHAIR

Defnyddio geiriadur yn y dosbarth





cadair hon *eb* (cadeiriau)
1 sedd â chefn a phedair coes ar gyfer un person; stôl CHAIR
2 (mewn enwau lleoedd) mynydd ar ffurf cadair, neu le cadarn neu gaer, e.e. *Cadair Idris, Pencadair* (set Pencader)
3 pwrs, piw buwch neu ddafad neu afr UDDER
4 gwobr eisteddfodol i feirdd neu lenorion; yn yr Eisteddfod Genedlaethol rhoddir y gadair i un o brifeirdd yr ŵyl, y bardd sy'n ennill cystadleuaeth yr awdl CHAIR
5 swydd athro mewn prifysgol CHAIR (cadeiriol)
cadair esmwyth cadair fawr gyfforddus EASY CHAIR
cadarn *a*

Defnyddio geiriadur yn y dosbarth

Dyma ganlyniadau Cymraeg sy'n berthnasol i:

cadair
(2)

cofnodion sy'n cyfateb i '*cadair*'

cadair

eb

chair

udder

Geiriadur Cyffredinol Cysgair

cadair eb cadeiriau (yn gyffredinol) chair n
Y Termiadur Addysg

Help llaw…



Cysill™

Cysgeir™

https://www.uwtsd.ac.uk/cy/bargeinion-tg/bargeinion-tg-i-fyfyrwyr/

https://www.cysgliad.com/en/dewin-cysgliad/

https://sway.office.com/DICeeTQkGFkqp6HH?ref=Link

Enwau, enwau ac enwau!

enw priod

enw person, peth, iaith neu le arbennig

e.e. William, Dafydd, Caerdydd, Ysgol y Wern, mis Mai, Y Pasg a.y.y.b.

Ceir **prif lythyren** ar ddechrau **enw priod** bob amser.

enw torfol

enw ar gasgliad o bobl neu bethau

e.e. tyrfa, haid

Enwau, enwau ac enwau!


enw diriaethol

enw ar rywbeth ‘real’ h.y rhywbeth y gallwn ni **gyffwrdd** ag e, e.e. bwrdd, cadair

enw haniaethol

enw ar rywbeth na allwn ni ei gyffwrdd,

e.e. hapusrwydd, cariad



Rhan 2:
Rhagenw / Rhagenwau
(pronoun/s)

Gair a ddefnyddir yn lle enw.

Rhagenw / Rhagenwau

Gair a ddefnyddir yn lle enw,
e.e. fi, ti, fe, nhw, ninnau, hwn



Sylwch ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy frawddeg ganlynol:

Mae **Siân** yn hoff iawn o'i gwaith. (*enw)*

Mae **hi**'n hoff iawn o'i gwaith. *(rhagenw)*

Eich cyfle chi ….

- Ysgrifennwch frawddeg yn defnyddio rhagenw…





Rhan 3:
Ansoddair / Ansoddeiriau
(adjective/s)

Gair sy'n disgrifio enw neu ragenw, h.y. dweud **sut** beth ydyw.

Ansoddair / Ansoddeiriau

Gair sy'n disgrifio enw neu ragenw h.y. dweud **sut** beth ydyw.

e.e. sefyllfa **anodd**

pryder **mawr**

prydau bwyd **prydlon**

merch **hapus**

Fel arfer yn y Gymraeg mae'r ansoddair yn dod **ar ôl** yr enw. Serch hynny mae rhai sy'n digwydd fynychaf **o flaen** yr enw (sylwer y ceir treiglad meddal **ar ôl** ansoddair)

e.e. **hen** wers

priod waith


annwyl ferch

unig gyfle

hoff liw

Cystadleuaeth: Sawl ansoddair?

- Sawl ansoddair y gallwch chi feddwl amdanyn nhw? Ysgrifennwch ar y bwrdd gwyn!






Elliott

Rhan 4:
Cysylltair / cysyllteiriau
(conjunction/s)

Gair sy'n cysylltu geiriau, cymalau neu frawddegau.

Cysylltair / Cysyllteiriau

Gair sy'n **cysylltu** geiriau, cymalau neu frawddegau.

e.e. trefniadau **a** chynlluniau
un **neu** ddau



Roedd John yn hwyr i'r gwaith **oherwydd** / **o achos** y ddamwain.

Aeth John yn ôl i'w sedd **ond** ni lwyddodd i gwblhau'r gwaith.

Mae hi'n brysur yma heddiw. Mae pawb yn gweithio fel lladd nadroedd.
> Mae hi'n brysur yma heddiw **ac** mae pawb yn gweithio fel lladd nadroedd.

Gorffennwch y frawddeg ...

Rhedodd y bachgen i lawr y stryd ... oherwydd



Gorffennwch y frawddeg ...

Rhedodd y bachgen i lawr y stryd ... pan




Gorffennwch y frawddeg ...

Rhedodd y bachgen i lawr y stryd ... a / ac



Gorffennwch y frawddeg ...

Rhedodd y bachgen i lawr y stryd ...





Rhan 5:
Arddodiad / Arddodiaid
(preposition/s)

Gair sy'n dangos y berthynas rhwng un person neu beth a person neu beth arall.

Arddodiad / Arddodiaid

Beth yw **arddodiad / arddodiaid** ? (Preposition/s)

Gair sy'n dangos y berthynas rhwng un person neu beth a pherson neu beth arall. Yn aml, mae arddodiad yn disgrifio **ble mae** un peth mewn perthynas â rhywbeth arall.

e.e. Mae'r gwaith **ar** y ddesg.
Mae'r disgyblion **yn** y dosbarth.
Mae'r ffeiliau **wrth** y drws.





Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau.				
Rwy'n gallu rhannu syniadau a theimladau a mynegi'r hyn yr wyf yn ei hoffi ac nad wyf yn ei hoffi. Rwy'n gallu disgrifio gwrthrychau a digwyddiadau, gan adeiladu ac ymestyn fy	Rwy'n gallu esbonio gwybodaeth a rhannu syniadau, barn a theimladau gan ddefnyddio geirfa berthnasol.	Rwy'n gallu rhyngweithio gydag eraill, siarad ac ysgrifennu am fy meddyliau, teimladau a barn, gan ddangos empathi a pharch.	Rwy'n gallu rhannu fy meddyliau, teimladau a barn gydag eraill, gan ddefnyddio ystod o dechnegau at wahanol ddibenion gan ddangos empathi a pharch.	Rwy'n gallu cyfathrebu fy meddyliau, teimladau a barn mewn cyd-destunau heriol a dadleuol gan ddangos empathi a pharch.
Rwy'n dechrau deall y gellir ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Rwy'n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion.	Rwy'n gallu siarad er mwyn cynllunio ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Rwy'n gallu trefnu fy ngwaith ysgrifennu i ddilyn yn rhesymegol. Rwy'n gallu ysgrifennu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol ddychmygus, amrywiol a manwl gywir.	Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig gyfarwydd a chywair priodol wrth gyfathrebu.	Rwy'n gallu dewis iaith idiomatig a chywair priodol wrth gyfathrebu er mwyn cyfoethogi fy mynegiant.	Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig soffistigedig a chywair priodol mewn ystod o gyd-destunau.

Cysylltiad â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd . . .

Llythrennedd: Siarad

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3
Rwy'n gallu gwahaniaethu seiniau, chwarae â seiniau a thrin seiniau o fewn fy amgylchedd yn ogystal ag o fewn geiriau.	Rwy'n gallu datblygu ac addasu fy ngeirfa drwy wrando a darllen, a defnyddio'r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.	Rwy'n gallu myfyrio ar safon fy mynegiant a defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau mwy o eglurder yn fy nghyfathrebu llafar, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd ffurfiol.
Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol amrywiol ac yn gynyddol fanwl gywir.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau priodol am eirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun yn rhugl ac yn eglur.
Rwy'n gallu cyfathrebu ystyr gan ddefnyddio iaith lafar estynedig a/neu ystum.	Rwy'n gallu amrywio'r math o frawddegau rwy'n eu defnyddio yn fy iaith lafar.	Rwy'n gallu mynegi materion a syniadau'n glir gan ddefnyddio geirfa sy'n benodol i faes dysgu a phrofiad/disgyblaeth ac enghreifftiau.

Cysylltiad â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd . . .

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3
	Rwy'n gallu adnabod y seiniau sydd yn aml yn newid ar ddechrau geiriau a chymhwyso'r newidiadau hynny mewn rhai cyd-destunau lle y bo angen treiglo, *e.e. yn gyflym, digon o le*.	Rwy'n gallu adnabod geiriau sydd wedi eu treiglo, ac yn gallu cymhwyso'r newidiadau hynny mewn llawer o gyd-destunau gorfodol, gan gynnwys: • treiglad meddal ar ôl 'ei' gwrywaidd, *e.e. ei goes ef*, ac ar ôl nifer o arddodiaid • treiglad meddal (heblaw am ll a rh) ar ôl 'yn' traethiadol, *e.e. yn gyflym* • treiglad trwynol ar ôl 'fy', *e.e. fy nghoes i*, ac ar ôl yr arddodiad 'yn', *e.e. yng Nghaerffili* • treiglad llaes ar ôl 'ei' benywaidd, *e.e. ei choes hi*, ac ar gyfer enwau gyda chyfeiryddion dynol.

Help llaw…



Cysill™

Cysgeir™

https://www.uwtsd.ac.uk/cy/bargeinion-tg/bargeinion-tg-i-fyfyrwyr/

https://www.cysgliad.com/en/dewin-cysgliad/

https://sway.office.com/DICeeTQkGFkqp6HH?ref=Link



Darlith nesaf:

Dydd lau

24.11.22 @ 11yb

CJ5